

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth y 14eg o Ionawr 2020.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dylan Herbert, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sian Dafydd, Gareth Lloyd Jones – Talysarn; OP Huws, Gwyndaf Roberts, Hefina M W Roberts - Llanllyfni / **Ymddiheuriadau** Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Williams, Nerys Williams – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys, Craig ab Iago (Cyngorwyr Sir). **PENODWYD IS-BWYLLGOR PENODI** – Gareth, Dylan, OP, Gwyndaf a Barry.
- 2. Gwadd:** Gwyndaf Williams (Rheolwr Datblygu) a Dylan Roberts (Cyfarwyddwr Adfywio) Grwp Cynefin. Feu'n holwyd am safle Tyn y Weirglodd, Penygroes, ac fe hysbyswyd y Cyngor fod y safle yn un heriol – nwy a dwr. Trafodaeth ynglyn a'r angen gyda Cyngor Gwynedd. Edrych ar y costau abnormal. Yn y Rhaglen Datblygu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. OP Huws yn datgan fod yr arolwg a fu yn wreiddiol wedi dyddio bellach. Fe ddywedwyd fod y Cynllun Tai Lleol a oedd yn rhan o'r cynllun gwreiddiol ddim ar gael mwyach, ac mai Cyngor Gwynedd sydd yn cydlynnu grantiau. Dywedwyd fod datblygiad safle Express yn dod o ffynonell wahanol o arian. Dywedwyd fod ceisio symud Tyn y Weirglodd ymlaen yn flaenoriaeth gan Cynefin ac mai hwn yw'r unig safle ganddynt yn Dyffryn Nantlle ar gyfer datlygu tai.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Sian Dafydd – eitem 12 cynllunio Tal y Maes Mawr, Nebo.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Rhagfyr.** Cywirdeb – cyfarfod Ionawr i gychwyn am 6.30. Pawb yn derbyn.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Darllenwyd adroddiad Judith Humphreys. Y Cadeirydd yn datgan pa mor ddiolchgar ydy'r Cyngor am ei gwaith caled i gyd.
- 6. Praesept** Edrychwyd ar y gyllideb am y flwyddyn ariannol nesaf, a phenderfynwyd peidio a chynyddu'r Praesept eleni, a'i gadw yn £48826.00
- 7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Arwyddion wedi eu gosod yn Llanllyfni – 'dim ffordd trwodd'. Sian a Barry wedi methu mynychu cyfarfod LleCHI.
- 8. Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i'r Heddlu.** Talysarn Ffordd Bryncelyn – twll arall wrth rhif 24; Golwg efo biniau ar ffordd Hyfrydle – ysbwriel ym mhobman. Nebo Diogelu Cymru Wledig – gofyn am ffurflenni cais. Llanllyfni Bin rhwng Llanllyfni a Penygroes yn cale ei ail-osod; Coed ar y bont angen eu torri; Yr hen lon wrth Berth – tyfiant eto yn cau am y llwybr – gwreiddiau y coed yn y lon wedi dechrau tyfu'n frigau bach eto; Tyllau wedi eu cau yn Llanllyfni. Penygroes Y trac tu ol i Bro Llwyndu yn dywyll iawn – pobl yn cerdded eu cwn, a gweledd yn wan – gofyn am olau oherwydd rhesymau diogelwch; Cae Cwtin – drain angen eu torri yn y cae chwarae; Gwair yn tyfu am y palmant ar Ffordd Llwyndu – atgoffa; A'r tyllau ar Ffordd Llwyndu yn gwaethygu; Problemau wedi bod yn Ysgol Dyffryn Nantlle – pryder fod nifer o ddisgyblion yn gadael yr ysgol ac yn symud i ysgolion eraill, ac athrawon yn gadael. Y Cyngor Cymuned yn gofyn sut mae'r ysgol yn gweithredu i gadw rheolaeth ac i gadw plant yn yr ysgol, a datgan ein bod yn bryderus. – Ysgifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr.
- 9. Parc Sglefrio Talysarn.** Sian ddim ar gael ar unrhyw un o'r dyddiadau a gynnigwyd am gyfarfod – y Clerc i gysylltu efo Rhian George i'w hysbysu, ond bod y Cyngor yn parhau i fod eisiau bod yn rhan o unrhyw drafodaeth.
- 10. Llwybrau a Mynwentydd** – Cais i gofrestru llwybr y Trim Trac, Talysarn- y Cyngorwyr yn datgan fod Cyngor Gwynedd yn edrych ar ol y llwybr yma, ac nad oedd y Cyngor Cymuned yn cytuno i wneud cais i'w chofrestru gan y byddai yn dod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. Arwyddion mynwentydd – trafodwyd y corlenni eto, a phenderfynia y Cyngor yn parhau fod angen bwrw ymlaen i dynnu y gorlan o MacPelah yn gyntaf, a gweld sut mae'n mynd. Os yw'r broblem ysbwriel yn parhau, yna efallai cysidro cael biniau ar olwyn; Barry wedi cysylltu efo Mark Balaam ynglyn a chynlluniau rhan nesaf prosiect Mynwent MacPelah, a mae wedi cytuno i gynorthwyo. Mark am gysylltu efo OP Huws i drafod y 'spec'. Barry yn gallu marcio llwybr y lon allan er mwyn dangos i ddarparu contractwyr; Penderfynwyd gofyn i'r hogiau sydd yn torri gwellt y mynwentydd i gasglu hen writhoedd o'r mynwentydd.
- 11. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu.** A Johnson - £25 Ffon/Rhyngwyr, A Johnson Derbynebau - dim; Scottish Power £38.67 a £36.26. Cytuno. Awgrymu dad-gysylltu cyflenwad trydan er mwyn arbed arian gan fod y Cyngor yn darparu cyflenwad amgen. Dylan yn dweud y byddai yn ceisio trefnu hyn.
- 12. Cynllunio:**– Apel C19/0279/22/LL – Tal y Maes Mawr, Nebo – Sian Dafydd yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell – y Cyngor yn parhau i wrthwynebu ar yr un sail ag a gyflwynwyd eisioes. Y safle yn gwbl

anaddas i ddatblygiad o'r fath; NP3/22/17P – Ffridd Nantlle, sied amaethyddol. Eboost gan Gyngor Gwynedd parthed cais codi 12 ty, Treddafydd, Penygroes – nid oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan y datblygwr ymlaen llaw i'r cais cynllunio.

13. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis: Trefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn nos Iau y 23ain o Ionawr i drafod hysbyseb swydd y Clerc. 7.00 yn festri Soar.

14. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

* Rhybuddion Ffordd – darllenwyd y rhybuddion; Cais Grant gerddi Glynllifon – gwahoddiad – Barry am fynychu. Dylid cysylltu efo adran Economi I sefydlu consortiwm I fod yn berchen ar y safle i gyd. Cyfle i sefydlu cylch trafod yn cynnwys y coleg. Parc Glynllifon yn ased i Gwynedd i gyd; Rhestr Biniâu Halen – OP Huws wedi gyrru manylion i'r Clerc o un o'r biniâu ar dir preifat – hysbysu Cyngor Gwynedd.

***Arall**

* Un Llais; Ymateb Polisi Iaith Heddlu – darllenwyd yr ymateb. Estyn gwahoddiad i Mark Raymant i un o gyfarfodydd y Cyngor.

15. Ceisiadau am Arian. Trafod mis Chwefror.